**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1217
Ein cyf/Our ref EM/00846/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

9 Mawrth 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Chwefror ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch Deiseb P-06-1217 i agor canolfannau / clinigau meddygol un stop COVID Hir, ac yn gofyn i lais y claf gael ei gynnwys mewn unrhyw benderfyniad yn y dyfodol ynghylch darpariaeth gwasanaethau COVID Hir.

Yn fy natganiad ar COVID Hir yn y Senedd ar 8 Chwefror, nodais fod yr adolygiad cyntaf o'r rhaglen Adferiad yn awgrymu ei bod yn ymddangos bod y model adsefydlu integredig ac amlbroffesiwn a ddarperir yn lleol yn ateb anghenion ein poblogaeth.

Roedd yr adroddiad gwerthuso cenedlaethol rhagarweiniol a gynhaliwyd gan Cedar (Canolfan Ymchwil Technoleg Iechyd), a oedd yn sail i'r adroddiad hwn, yn cynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a bydd yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Dros y misoedd nesaf, bydd Cedar yn parhau i gasglu data arolwg gan ddefnyddwyr gwasanaethau COVID Hir ar lefel genedlaethol ac mae'n bwriadu cyhoeddi ail adroddiad cenedlaethol i swyddogion Llywodraeth Cymru yn y gwanwyn.

Byddwn yn parhau i fonitro, dysgu a gwella gwasanaethau COVID Hir, gan wneud yn siŵr ein bod yn ymateb i adborth gan bobl sydd angen y gwasanaethau hyn ac sy'n eu defnyddio.

Rwy'n gobeithio bod yr ymateb hwn wedi bod o gymorth.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.